

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD DRWY GYNHADLEDD FIDEO, DYDD MERCHER 6

EBRILL 2022, 14:00 – 16:00

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creativity in the UK")

Presennol:

Faraz Tasnim (FT)

Amali de Alwis MBE (AdA)

Roger Lewis (RL)

Liam Hannaway (LH)

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg,
Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru

Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd
Iwerddon

Arsyllwyr yn Bresennol:

Greg Wilson (GW)

Daniel Coles (DC)

Adam Richards (AR)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau
a Chwaraeon ("DCMS")

PWC

Yn bresennol:

Phil Batty (PB)

Ian Reid (IR)

David Grady (CG)

Caroline McGrory (CMcG)

Sarah Tromans (ST)

Gabriella Butler (GB)

John Darnbrook (JB)

Laura O'Flynn (LO'F)

Sarb Hair (SH)

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)

Yr Athro Andrew Thompson CBE(AT)

Bea Hendry (BH)

Yasmin Damji (YD)

Heather Sharp (HS)

Cyfarwyddwr Gweithredol

Prif Weithredwr

Prif Swyddog Ariannol

Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni

Pennaeth Rheolaeth Ariannol

Uwch-reolwr Cyllid

Pennaeth Integreiddio Busnes

Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

Cydlynnydd Gweithrediadau Corfforaethol

Cadeirydd y Bwrdd, (eitemau 1–3)

Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol (eitemau 1–3)

Pennaeth y Rhaglen (eitemau 1–3)

Uwch-reolwr Gwerthuso ac Effaith (eitemau 1–3)

Cyfarwyddwr, KPMG Economics (eitemau 1–3)

18/22 Croeso a phwrpas y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda gan ganolbwyntio'n benodol ar drosolwg y Gwerthusiad gan KPMG Economics a oedd yn ymuno â'r cyfarfod, gydag aelodau ychwanegol o'r Bwrdd wedi eu gwahodd.

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Sonia Coates – y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Alison Breadon – Price Waterhouse Cooper ("PWC") a Lucy Bailey.

19/22 Cymeradwyo cofnodion a materion sy'n codi

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi a dywedodd y bydd y camau presennol nad ydynt wedi eu cymryd yn symud i fformat newydd mewn dogfen ar wahân fel y gwelir yn eitem 2. Trafododd y Cadeirydd y camau canlynol a oedd angen sylw:

- Cytunwyd i adolygu'r egwyddorion COVID-19 yn barhaus yng ngoleuni'r gofyniad ar gyfer pob un o'r gwledydd. Credai PB fod y cynlluniau'n gryf a'u



CREATIVITY IN THE UK

bod wedi eu profi'n ddiweddar pan gafodd nifer o gydweithwyr COVID-19 oddi wrth dîm MarComms. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu'n barhaus yn rhan o 'Parhau fel Arfer' a chredwyd y gellid cau'r cam gweithredu hwn. Cytunodd y Pwyllgor.

- Rhoddodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf am seiberddiogelwch ar draws amgylchedd gweithredu corfforaethol y Cwmni yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd rhyngddo ef, AdA a tîm technoleg y Pwyllgor Trefnu. Dylai diweddariad arall gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022 yn gofnod cywir a byddant yn cael eu llofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig a bydd copi wedi ei olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

20/22 Trosolwg o'r Gwerthusiad

Croesawodd y Cadeirydd y tîm ar y prosiect Gwerthuso.

Ar ôl ei hadolygu fel Hyrwyddwr Prosiect y Bwrdd, lluniodd AT y sesiwn a dywedodd ei fod yn pryderu y byddai'r gwerthusiad yn cael ei orymestyn â phwyslais cul ar yr hyn y byddai UNBOXED yn dymuno ei ddangos a'i dystiolaethu. Rhoddodd y cyflwyniad a ddarparwyd lefel uchel o hyder.

Darparodd BH y cyd-destun a nododd y canlynol:

- Y 7 mantais a wireddwyd
- Briff y cyflenwr gwerthuso: LOT 1 a LOT 2
- Ymgynghoriad a llywodraeth.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y dangosyddion perfformiad allweddol ar waith. Dywedodd BH fod y sgwrs yn parhau i fod yn fyw ac, yn fewnol, fod y tîm yn aillfapio cynnig gwreiddiol y timau prosiect creadigol o'i gymharu â phroses i wirio cysur o'i chymharu â dyheadau ac yn ystyried a ydynt yn bod yn ddigon ymestynnol.

Gofynnodd y Pwyllgor pryd y byddai cyfraniad y Bwrdd yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad, gan weithredu fel y rhanddeiliad allweddol, a gofynnodd am ragor o wybodaeth am sut mae'r data meintiol yn cael eu rheoli a'r data ansoddol er mwyn adrodd y straeon cymhellol.

Teimlai AT y dylai'r Pwyllgor ei ystyried mewn 3 chategori:

- 1) nifer y bobl sy'n bresennol/swyddi a grëwyd – mae'n rhwydd casglu data, mae angen sicrhau eu bod yn gyson
- 2) ansawdd a natur profiad pobl a fydd yn anoddach
- 3) data i ddarparu mewnwelediad unigryw i'r Llywodraeth ddysgu am yr economeg greadigol.

CAM GWEITHREDU: BH i ystyried cyfraniad Gogledd Iwerddon.

Teimlai VH fod yn rhaid i'r data a gesglir ystyried 'gwerth am arian'. Roedd VH hefyd yn pryderu am y mesur cydlyniant cymdeithasol a gofynnodd i'r gwerthuswr ystyried a oes angen ei feintioi ymhellach. Dywedodd BH ei fod wedi ei ymgorffori yn yr amcanion strategol a bod angen ei adlewyrchu'n briodol. Pwysleisiodd AT y dylid canolbwyntio ar brofiadau a rennir a chysylltedd. Roedd RL yn cefnogi 'gwerth am arian' a chyrrhaeddiad.

Cyflwynodd HS y trosolwg o'r gwerthusiad a oedd yn cynnwys:

- y nodau a bennwyd gan UNBOXED a'r dull a gymerir
- cwmpas a chyfraniad rhanddeiliaid
- y model rhesymeg datblygedig i adfer allbynnau i'w mapio i'r effeithiau tymor canolig a hirdymor.

- dangosyddion.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd ar y trywydd iawn. Dywedodd HS ei bod wedi bod yn fwy heriol sefydlu'r cwmphas oherwydd y cymhlethdod ag UNBOXED a hynny ar adeg dyngedfennol, o ystyried bod y comisiynau wedi dechrau.

Dywedodd AdA mai hi yw Hyrwyddwr Prosiect y Bwrdd o ran cynaliadwyedd a'i bod wedi cefnogi'r tîm hwn yn ei waith yn ddiweddar a nododd ei gyflenwr na nodwyd yn hyn o beth. Teimlai HS y byddai rhai elfennau o gynaliadwyedd o ran yr hyn y mae'r comisiynau yn ceisio ei gyflawni ond nad yw'n elfen graidd. Awgrymodd AdA yn gryf fod y timau gwerthuso a chynaliadwyedd wedi croesgyfeirio er mwyn atal dyblygu a sylwadau sy'n gwrthdweud ei gilydd.

**CAM GWEITHREDU: BH/YD i siarad â JD i gwblhau
croesgyfeiriad ar gynaliadwyedd â gwerthusiad.**

Gofynnodd RL a all y gwaith gwerthuso ddylanwadu ar y gwaith o'n blaenau yn awr, gan ddadansoddi mewn amser real er mwyn sicrhau ei fod yn ddeinamig. Dywedodd HS nad oeddent wedi eu comisiynu i wneud hyn, ond i adrodd yn hytrach ar brosiectau sydd eisoes ar y gweill a fydd ar gael ar y dangosfwrdd.

Parhaodd HS â'r cyflwyniad a thrafododd y cwestiynau ymchwil ynghylch gwerthuso effaith a'r meysydd o fudd. Gofynnodd VH i'r Bwrdd fod yn rhanddeiliad â phwyslais a chredai fod 'gwerth am arian' yn gofyn am bersbectif ehangach, e.e. lleoliadau a gynlluniwyd am wahanol resymau nad ydynt yn gyson â chyrhaeddiad. Teimlai HS yn hyderus fod yr achos busnes yn cynnwys cydbwysedd o ran sbarduno ecwiti a methiannau yn y farchnad.

Credai AdA fod cyrhaeddiad yn arwain at danbrisiad, a gofynnodd a ddylid ychwanegu dylanwad, e.e. sut y'u gadawyd ar ôl y profiad, a fyddai'n adrodd cyfoeth y stori. Teimlai'r Pwyllgor y dylai dynnu sylw at y berthynas rhwng y pedair Llywodraeth sy'n dod at ei gilydd, sy'n gadarnhaol, a gwerthuso a yw'r Bwrdd wedi cyflawni ei gylch gwaith.

Teimlai'r Cadeirydd, er bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r broses a'r fframwaith o safbwynt tystiolaeth a gwerth am arian; mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Bwrdd llawn ystyried y ffit strategol a pharatoi papur ar gyfer ei gyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: BH i sicrhau bod trosolwg o'r gwerthusiad a
sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu dwyn i gyfarfod y Bwrdd
ym mis Ebrill i'w cymeradwyo'n ffurfiol mewn adroddiad
cryno.**

Diolchodd y Cadeirydd i HS a chrynhodd drwy ddweud bod hwn yn ddarn o waith eithriadol o bwysig, ac felly bod yn rhaid gwneud pethau'n iawn.

Gadawodd VH, AT, BH, YD a HS y cyfarfod.

21/22 Diweddariad Gweithredol (Cyffredinol)

Rhododd PB amlinelliad o rai o'r prif heriau gweithredol sy'n wynebu'r tîm a chrynhodd ddatblygiadau allweddol ar brosiectau byw.

22/22 Diweddariad Gweithredol

Cyflwynodd DG a PB bapur ychwanegol (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) yn nodi'r cynigion ar gyfer Adolygiad Sicrwydd Proses ar y Bwrsariaethau. Roedd y papur yn nodi'r chwe maes cwmpas allweddol.

Cytunodd y Pwyllgor ar y chwe maes a rhoes y dasg i'r Tîm Gweithredol o gynllunio a gweithredu'r broses adolygu a'r fethodoleg.

PENDERFYNWYD BOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG wedi cymeradwyo'r dull gweithredu a chomisiynu'r Archwiliad Mewnol i gynnal adolygiad trydedd linell o waith y Swyddog Gweithredol mewn cysylltiad â'r cwmpas hwn.

CAM GWEITHREDU: PB/AR i gynllunio a gweithredu'r broses adolygu a'r fethodoleg.

23/22 Rheoli Risgiau: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adroddiad Portffolio

Lluniodd JD y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) ac amlinellodd y newidiadau i sefyllfa'r Portffolio Rheoli Risgiau. Trafododd y Pwyllgor risgiau allweddol y prosiect a holodd Creative Assembly ynghylch digwyddiadau cysylltiedig gan werthfawrogi y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno yn y Bwrdd nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd am ddwysáu'r gwerthusiad i goch o ystyried y trafodaethau a'r diddymiad i'w cynnwys ar agenda nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg â phapur.

24/22 Adroddiad Perfformiad Cyllid

Lluniodd DG y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd). Mae'r tabl wrth gefn yn dangos y risgiau os cânt eu gwneud yn glir.

Bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn cymeradwyo sefyllfa Cyllideb 2.1 cyn i'r Bwrdd ei chymeradwyo. Cwblhaodd y Pwyllgor adolygiad o'r proffiliau wrth gefn o'i gymharu â'r risgiau hysbys a phenderfynodd fod y risgiau a nodwyd yn y rhagolwg yn fforddiadwy o fewn y gyllideb hyd oes bresennol.

PENDERFYNWYD BOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG wedi cymeradwyo sefyllfa Cyllideb 2.1 a'r cais ariannol gan gomisiwn, ar sail adolygiad o Achos Strategol gan y Bwrdd.

25/22 Papur Llywodraethu Diwedd y Flwyddyn

Lluniodd DG y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) a oedd yn amlinellu'r diweddariad rhagarweiniol ar alldro 2021/22. Cadarnhaodd aliniad cadarnhaol â'r rhagolwg a gyflwynwyd yn flaenorol. Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau.

26/22 Cynllun Gweithredu yn erbyn Twyll

Cyflwynodd ST y Cynllun Gweithredu yn erbyn Twyll (a gymerwyd fel y'i darllenwyd), a gyflwynwyd hefyd i DCMS.

Teimlai'r Cadeirydd ei fod yn gryno, er ei fod yn gwybod bod twyll yn tyfu tua diwedd contract ac felly roedd yn disgwyl i hyn gael ei gynnwys yn y papur diddymu.

PENDERFYNWYD BOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG wedi cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu yn erbyn Twyll ar gyfer 2022/23.

27/22 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Llif Prosiectau Caffael

Cymerodd JD y papur fel y'i darllenwyd ac nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau.

28/22 Diweddariad Archwilio Mewnol

Lluniodd AR y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) a nododd gynnydd ar ddau gam gweithredu agored a oedd yn hwyr; 1) mae'r porth yn barod a hyfforddiant mewnol wedi ei gynllunio a 2) gyda CThEM mae'r taliad di-dreth, y byddai ST yn mynd ar ei drywydd eto.

Mae'r Archwiliad Mewnol yn mynd rhagddo gydag archwiliadau dwfn y Comisiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r tîm Gweithredol a'r Archwiliad Mewnol asesu'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnodd sy'n weddill, o gofio bod Archwiliadau Dwfn y Bwrdd wedi bod yn digwydd.

CAM GWEITHREDU: PB/DG i ystyried y cynllun Archwilio Mewnol ac adolygu a ddylai archwiliadau dwfn fod yn rhan o'r cynllun.

29/22 Unrhyw Fusnes Arall

Gofynnodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am ystyried amseru'r Gwerthusiad ac am gysondeb â chyhoeddiad y cyfrifon terfynol.

CAM GWEITHREDU: DG i ystyried y cysondeb rhwng y cyfrifon terfynol a'r gwerthusiad o ran amseru.

Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfio â rheolaethau yn y cyfarfod.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00. Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf fydd 9 Mehefin 2022, yn bersonol – Cymru.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Arsyllwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Y Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfon at y Cadeirydd: 6 Mehefin 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr: 6 Mehefin 2022
Dyddiad dosbarthu: 7 Gorffennaf 2022